

MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL

Y BIL RHEOLEIDDIO CYNNYRCH A MASUREG

1. Gosodir y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog 29.2. Mae Rheol Sefydlog 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac y caniateir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru¹ os bydd Bil yn Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at unrhyw ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd neu sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.
2. Cyflwynwyd y Bil Rheoleiddio Cynnyrch a Mesureg yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 4 Medi 2024. Mae'r Bil ar gael yn: [Bil Rheoleiddio Cynnyrch a Mesureg - cyhoeddiadau Tŷ'r Arglwyddi - Biliau Seneddol - Senedd y DU](#)

Amcan(ion) polisi

3. Amcanion polisi datganedig Llywodraeth y Deyrnas Unedig (y DU) yw cynnal statws y DU fel arweinydd byd-eang o ran rheoleiddio cynnyrch, diogelu defnyddwyr a chefnogi twf. Mae fframwaith diogelwch cynnyrch a mesureg y DU yn deillio o gyfraith yr Undeb Ewropeaidd (yr UE) a bu iddo ddatblygu dros y pedwar degawd diwethaf tra'r oedd y DU yn aelod o'r UE. Ar ôl iddi adael yr UE, sefydlodd y DU gyfundrefn annibynnol y mae Llywodraeth y DU yn ystyried bod angen iddi allu addasu i dechnolegau newydd, fel Deallusrwydd Artiffisial, yn ogystal ag adlewyrchu'r newid o ran yr hyn y mae defnyddwyr yn ei brynu a'r ffordd y maent yn ei brynu.
4. Bwriedir i'r Bil sicrhau bod y DU mewn gwell sefyllfa i fynd i'r afael â materion diogelwch modern i ddiogelu defnyddwyr, i achub ar gyfleoedd sy'n cyflawni twf economaidd, ac i sicrhau tegwch yn y farchnad ar gyfer busnesau cyfrifol sy'n gweithredu ar-lein neu ar y stryd fawr. Bwriedir i'r Bil alluogi'r DU i gynnal safonau uchel o ran cynnyrch, gan gefnogi busnesau a thwf economaidd, drwy roi i Senedd y DU y pŵer i ddiweddarau'r cyfreithiau perthnasol.
5. Nod y Bil yw cefnogi twf economaidd, darparu sefydlogrwydd rheoleiddiol, a darparu mwy o fesurau i ddiogelu defnyddwyr drwy:
 - ymateb i'r risgiau a'r cyfleoedd newydd o ran cynnyrch i sicrhau bod modd i'r DU barhau i ddatblygu ochr yn ochr â datblygiadau technolegol, fel Deallusrwydd Artiffisial, a mynd i'r afael â materion fel digwyddiadau sy'n deillio o lyncu batris botwm a'r risgiau tân sy'n gysylltiedig ag e-feiciau.

¹ Yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru, sylwch ein bod yn cyfeirio at y ddeddfwrfa yng Nghymru fel "Senedd Cymru" y tro cyntaf, ac wedyn fel "y Senedd", oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall.

- pennu modelau busnes newydd a modelau busnes sy'n dod i'r amlwg yn y gadwyn gyflenwi, gan sicrhau bod cyfrifoldebau'r rheini sy'n ymwneud â chyflenwi cynhyrchion, fel marchnadoedd ar-lein (sy'n llwyfannau ar-lein sy'n cysylltu gwerthwyr trydydd parti â defnyddwyr i werthu ac i brynu cynhyrchion o bell) yn glir ac yn cael eu moderneiddio ar gyfer cadwyni cyflenwi cynyddol gymhleth, i ategu hyder defnyddwyr yn y cynhyrchion y maent yn eu prynu a'r rhai y maent yn eu prynu ganddynt.
- sicrhau bod modd diweddarau'r gyfraith i ganiatáu dull o gydnabod gofynion newydd neu ofynion diwygiedig yr UE o ran cynnyrch, gyda'r bwriad o atal costau ychwanegol i fusnesau ac o ddarparu sefydlogrwydd rheoleiddiol.
- galluogi gwelliannau o ran cydymffurfedd a gorfodi sy'n ystyried heriau ffiniau modern, digidol. Mae'r Bil yn ceisio galluogi'r Llywodraeth a'i rheoleiddwyr i fynd i'r afael â diffyg cydymffurfedd ac i dargedu ymyriadau drwy ganiatáu i reoleiddwyr ac awdurdodau sy'n cadw gwylidwraeth ar y farchnad rannu mwy o ddata.
- diweddarau'r fframwaith mesur cyfreithiol sy'n llywodraethu cywirdeb pwysau a mesurau nwyddau a brynir. Mae hyn yn ceisio rhoi hyder i ddefnyddwyr a busnesau yn yr hyn y maent yn ei brynu a chaniatáu ar gyfer cynnydd technolegol, gan gynnwys o ran cefnogi nodau a seilwaith sero net, er enghraifft galluogi arloesi a sicrhau ar yr un pryd fod darlleniadau mesuryddion ynni clyfar yn gywir.

Crynodeb o'r Bil

6. Noddir y Bil gan yr Adran Busnes a Masnach. Mae'r prif ddarpariaethau yn:

- Creu pwerau newydd i ganiatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau mewn perthynas â chynhyrchion penodol yn y DU at ddiben diogelwch cynnyrch.
- Caniatáu i ofynion newydd neu ddiwygiedig yr UE o ran cynnyrch barhau i gael eu cydnabod.
- Cynnwys pŵer sy'n galluogi gofynion i gael eu pennu ar gyfer cyfranogwyr penodol yn y gadwyn gyflenwi, gan gynnwys marchnadoedd ar-lein.
- Rhoi pwerau i ganiatáu i ddarpariaeth orfodi wedi'i theilwra gael ei gwneud, gan gynnwys creu troseddau a sancsiynau sifil newydd (gan gynnwys dirwyon).

- Cynnwys pwerau i wneud darpariaeth ar gyfer cyfundrefn codi tâl a fydd yn caniatáu i'r awdurdod perthnasol (fel y'i diffinnir) adennill rhywfaint o'r costau sydd i'w priodoli i weithrediad y gyfundrefn reoleiddio.
- Cynnwys pwerau i ganiatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau sy'n caniatáu i gyrff cyhoeddus perthnasol, y gwasanaethau brys a sefydliadau eraill a bennir yn y rheoliadau rannu gwybodaeth mewn cysylltiad â swyddogaethau o dan y Ddeddf, neu'n ei gwneud yn ofynnol iddynt wneud hynny

Darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer

7. Mae Llywodraeth Cymru wedi dod i'r casgliad bod darpariaethau perthnasol yn y Bil sydd, at ddibenion Rheol Sefydlog 29, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, ac felly mae angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol.
8. Rydym yn ystyried bod pwnc y Bil yn sbarduno'r prawf cymhwysedd yn adran 108A(2)(c) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, gan ei fod yn ymwneud â'r pynciau a gedwir yn ôl a ganlyn yn Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006: safonau, diogelwch ac atebolrwydd cynnyrch (adran C7 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006), diogelu defnyddwyr (adran C6 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006) a thelathrebu a thelegraffiaeth ddi-wifr (adran C9).
9. Bu inni hefyd ystyried y cyfyngiadau a bennir yn adran 108(2)(d) ac a nodir yn Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Bu inni ystyried paragraffau 4 a 5 o Atodlen 7B yn benodol. Mae paragraff 4 yn ymwneud â throseddau. Bu inni benderfynu nad oedd unrhyw gyfyngiad yn gymwys yn yr amgylchiadau hyn. Mae paragraff 5 yn atal Deddf gan y Senedd rhag gwneud diwygiadau i Ddeddfau penodol y DU, yn benodol yn yr achos hwn, Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020. Daethom i'r casgliad nad oedd unrhyw gyfyngiad yn gymwys yn yr amgylchiadau hyn.
10. Felly, i'r graddau y gellid defnyddio'r pwerau yn y Bil i wneud darpariaeth ym meysydd datganoledig iechyd, datblygu economaidd, diogelu'r amgylchedd ac iechyd anifeiliaid a phlanhigion, mae angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol. Yr unig eithriadau, felly'r darpariaethau hynny yn y Bil nad oes angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar eu cyfer, yw **cymal (1)(1)(c)**, **cymal 5**, **cymal 6 a chymal 9(3)**, yr ydym yn ei ystyried sydd â mwy na chysylltiad llac neu ganlyniadol â mater a gedwir yn ôl C8: pwysau a mesurau ac nid ydynt yn ymgysylltu ag unrhyw faterion cymhwysedd datganoledig.
11. Felly, ein barn ni yw bod angen cydsyniad ar gyfer y cymalau isod:

Cymal 1: Rheoliadau cynnyrch

12. Gellid defnyddio'r pŵer yng nghymal 1(1)(a) i leihau neu liniaru risgiau a gyflwynir gan gynhyrchion sy'n peryglu iechyd person, sy'n wahanol ac ar wahân i unrhyw risgiau i ddiogelwch y person hwnnw. Mae'r defnydd o'r gair "health" yng nghymal 1(4), yn ehangu'r cwrpas o ran sut y gellid arfer y pŵer y tu hwnt i ddiogelwch cynnyrch yn unig (mater a gedwir yn ôl) ac mae'n galluogi i ddarpariaeth gael ei gwneud at ddibenion iechyd y cyhoedd, sy'n faes o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.
13. Mae cymal 1(1)(b) yn darparu pŵer gwneud rheoliadau i'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud darpariaeth mewn perthynas â marchnata neu ddefnyddio cynhyrchion yn y DU at ddiben sicrhau bod cynhyrchion yn gweithredu'n effeithlon neu'n effeithiol.
14. Ein barn ni yw nad yw gweithrediad effeithlon ac effeithiol cynnyrch yn elfen hanfodol o safonau, diogelwch nac atebolrwydd cynnyrch. Nid yw effeithlonrwydd cynnyrch nac effeithiolrwydd cynnyrch yn cael eu crybwyll yn benodol yn y mater a gedwir yn ôl o ran safonau, diogelwch nac atebolrwydd cynnyrch yn adran C7, paragraff 79, nac unrhyw le arall yn Atodlen 7A.
15. Ein barn ni yw y byddai'r materion sy'n ymwneud ag effeithlonrwydd a/neu effeithiolrwydd cynnyrch yn fwy tebygol o fod yn gysylltiedig â maes ehangach datblygu economaidd – sy'n fater datganoledig ac sydd, felly, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, a/neu effeithlonrwydd o fath arall, fel effeithlonrwydd amgylcheddol, a all fod wedi'i ddatganoli hefyd.
16. Mae cymal 1(2) yn darparu pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliad sy'n cyfateb i gyfraith yr UE, neu'n debyg iddi, at ddiben lleihau neu liniaru effaith amgylcheddol cynhyrchion. Mae'r pwerau wedi'u cadw yn ôl i Lywodraeth y DU mewn cysylltiad â safonau a gofynion technegol mewn perthynas â chynhyrchion a oedd yn cael effaith yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu yn unol â rhwymedigaeth o dan gyfraith yr UE (adran C7, paragraff 77, Atodlen 7A). Serch hynny, yn ein barn ni, mae'n bosibl y gallai'r pŵer yng nghymal 1(2) gael ei ddefnyddio i wneud diwygiadau i safonau a gofynion technegol sy'n mynd y tu hwnt i'r hyn a oedd yn bodoli ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu ac, i'r perwyl hwnnw, gallai estyn ymhellach na'r mater a gedwir yn ôl ym mharagraff 77. At hynny, gan gymhwyso Rheol Sefydlog 29, a'r prawf cymhwysedd yn adran 108A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae dadl hefyd y gallai'r Senedd ddeddfu i reoleiddio marchnata neu ddefnyddio cynhyrchion yng Nghymru (sy'n cyfateb i, neu sy'n debyg, i ddarpariaeth o gyfraith berthnasol yr UE), at ddiben lleihau neu liniaru effaith amgylcheddol; gan fod diogelu'r amgylchedd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.
17. Nid yw'r cyfyngiad ar y pŵer yng nghymal 1(1) ac 1(2) a osodir gan gymal 1(3) a'r Atodlen sy'n cyd-fynd yn ddigon eang er mwyn ymestyn i'r holl eithriadau cyfredol i'r materion a gedwir yn ôl yn adran C6 a C7 o Atodlen 7A, sy'n ymwneud â bwyd, cynhyrchion bwyd a deunyddiau cyswllt bwyd; cynnyrch amaethyddol a garddwriaethol, anifeiliaid a chynhyrchion

anifeiliaid, hadau, bwydydd anifeiliaid, gwrtaithe a phlaleiddiaid (gan gynnwys unrhyw beth a drinnir fel pe bai'n blaladdwr yn rhinwedd deddfiad). O ganlyniad, byddai darpariaethau cymal 1(1)(a), 1(1)(b) ac 1(2) o'r Bil yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol, yn rhinwedd cymal 1(3), i wneud rheoliadau at ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Cymal 2 Gofynion cynnyrch

18. Mae cymal 2(3) yn gwneud darpariaeth mewn perthynas ag achredu personau sy'n cynnal gwaith monitro, asesu ac ardystio cynhyrchion. Mae achredu cyrff sy'n ardystio cydymffurfiaeth â safonau technegol cynhyrchion wedi'i gadw'n ôl yn benodol gan baragraff 78 o adran C7, Atodlen 7A. Fodd bynnag, o ystyried ein barn ar y potensial i'r Senedd ddeddfu gan ddefnyddio'r pwerau yng nghymal 1, rydym yn ystyried bod y mater a gedwir yn ôl yn ategol i'r prif bwerau gwneud rheoliadau yng nghymal 1(1)(a), 1(1)(b) a chymal 1(2), ac felly ei fod o fewn cwrpas y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn unol ag adran 108A(7) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Cymal 3: Gorfodi rheoliadau cynnyrch

19. Mae cymal 3 yn ymwneud â gorfodi "rheoliadau cynnyrch" a ddiffinnir gan gymal 1(7) fel rheoliadau a wneir o dan gymal 1.

20. Mae cymal 1(1)(a), 1(1)(b) a chymal 1(2) yn cynnwys darpariaethau gwneud rheoliadau a allai gael eu cynnwys mewn Deddf gan y Senedd. Felly, ein barn ni yw bod cymal 3 yn syrthio o fewn cwrpas unrhyw femorandwm cydsyniad deddfwriaethol i'r graddau bod ei ddarpariaethau yn atodol i'r pwerau gwneud rheoliadau yng nghymal 1(1)(a), 1(1)(b) a chymal 1(2) yr ydym yn ystyried eu bod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, yn rhannol o leiaf, ac felly bydd yn rhoi'r broses cynnig cydsyniad deddfwriaethol ar waith at ddiben Rheol Sefydlog 29 o Reolau Sefydlog y Senedd.

Cymal 4: Argyfyngau

21. Mae cymal 1(1)(a), (1)(b) a (2) yn cynnwys darpariaethau i wneud rheoliadau y gellid eu cynnwys o fewn Deddf gan y Senedd, yn rhannol o leiaf. Felly, yn unol â'r rhesymau a nodir uchod mewn perthynas â'r cymalau eraill, ein barn ni yw bod cymal 4 yn syrthio o fewn cwrpas unrhyw femorandwm cydsyniad deddfwriaethol i'r graddau bod ei ddarpariaethau yn atodol i'r pwerau gwneud rheoliadau yng nghymal 1(1)(a), 1(1)(b) a (2) yr ydym yn ystyried eu bod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, yn rhannol o leiaf, ac felly bydd yn rhoi'r broses cynnig cydsyniad deddfwriaethol ar waith at ddiben Rheol Sefydlog 29 o Reolau Sefydlog y Senedd.

Cymal 7: Rhannu gwybodaeth

22. Mae cymal 1(1)(a), (1)(b) a (2) yn cynnwys darpariaethau gwneud rheoliadau y gellid eu cynnwys o fewn Deddf gan y Senedd, yn rhannol o leiaf. Felly, ein barn ni yw bod cymal 7 yn syrthio o fewn cwmpas unrhyw femorandwm cydsyniad deddfwriaethol i'r graddau bod ei ddarpariaethau yn atodol i'r pwerau gwneud rheoliadau yng nghymal 1(1)(a), 1(1)(b) a (2) yr ydym yn ystyried eu bod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, yn rhannol o leiaf, ac felly bydd yn rhoi'r broses cynnig cydsyniad deddfwriaethol ar waith at ddiben Rheol Sefydlog 29 o Reolau Sefydlog y Senedd.

Cymal 8: Adennill costau

23. Mae cymal 1(1)(a), (1)(b) a (2) yn cynnwys darpariaethau gwneud rheoliadau y gellid eu cynnwys o fewn Deddf gan y Senedd, yn rhannol o leiaf. Felly, ein barn ni yw bod cymal 8 yn syrthio o fewn cwmpas unrhyw femorandwm cydsyniad deddfwriaethol i'r graddau bod ei ddarpariaethau yn atodol i'r pwerau gwneud rheoliadau yng nghymal 1(1)(a), 1(1)(b) a (2) yr ydym yn ystyried eu bod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, yn rhannol o leiaf, ac felly bydd yn rhoi'r broses cynnig cydsyniad deddfwriaethol ar waith at ddiben Rheol Sefydlog 29 o Reolau Sefydlog y Senedd. Rydym yn ystyried bod i'r darpariaethau a geir yng nghymal 8 sy'n ymwneud â rheoliadau mesur fwy na chysylltiad llac neu ganlyniadol â'r gyfraith sy'n ymwneud â phwysau a mesurau sydd wedi'i chadw yn ôl yn rhinwedd paragraffau 81 a 82 yn adran C8 o Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.
24. Felly, ein barn ni yw nad yw'r elfennau hynny o gymal 8 yn syrthio o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd ac nad ydynt yn rhoi'r broses cynnig cydsyniad deddfwriaethol ar waith at ddiben Rheol Sefydlog 29 o Reolau Sefydlog y Senedd.

Cymal 9: Diwygio Deddfau penodol yn ganlyniadol

25. Yn ein barn ni, mae cymal 1(1)(a), 1(1)(b) a chymal 1(2) yn cynnwys darpariaethau gwneud rheoliadau a allai gael eu cynnwys mewn Deddf gan y Senedd, yn rhannol o leiaf.
26. Felly, ein barn ni yw bod cymal 9 (ac eithrio is-adran (3) sy'n ymwneud yn benodol â mater a gedwir yn ôl C8– pwysau a mesurau) yn syrthio o fewn cwmpas unrhyw femorandwm cydsyniad deddfwriaethol i'r graddau bod ei ddarpariaethau yn ddeilliadol neu'n ganlyniadol neu'n atodol i'r pwerau gwneud rheoliadau yng nghymal 1(1)(a), 1(1)(b) a chymal 1(2) yr ydym yn ystyried eu bod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, yn rhannol o leiaf, ac felly bydd yn rhoi'r broses cynnig cydsyniad deddfwriaethol ar waith at ddiben Rheol Sefydlog 29 o Reolau Sefydlog y Senedd.

Cymal 10: Dehongli

27. Mae cymal 10(1) yn darparu diffiniadau a gymhwysir ac sy'n berthnasol o ran dehongli a chymhwyso darpariaethau'r Bil. Felly, ein barn ni yw bod y darpariaethau hyn yn syrthio o fewn cwmpas unrhyw femorandwm cydsyniad deddfwriaethol i'r graddau y defnyddir y cyfeiriadau hyn yn y cymalau hynny yn y Bil a phan fo'r cymalau hynny'n peri bod angen memorandwm cydsyniad deddfwriaethol neu y gall fod ei angen.
28. Rydym yn ystyried bod is-adran (2) yn syrthio o fewn cwmpas unrhyw femorandwm cydsyniad deddfwriaethol i'r graddau bod ei ddarpariaethau yn ddeilliadol neu'n ganlyniadol neu'n atodol i'r pwerau gwneud rheoliadau yng nghymal 1(1)(a), 1(1)(b) a chymal 1(2) yr ydym yn ystyried eu bod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, yn rhannol o leiaf, ac felly bydd yn rhoi'r broses cynnig cydsyniad deddfwriaethol ar waith at ddiben Rheol Sefydlog 29 o Reolau Sefydlog y Senedd.

Yr Atodlen: Cynhyrchion eithriadig

29. Gan mai ein barn ni yw bod cymal 1(3) o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, rydym yn ystyried y byddai'r Atodlen hefyd o fewn ei chymhwysedd deddfwriaethol, pe bai rheoliadau'n cael eu gwneud o dan gymal 1(1)(a), (1)(b) neu gymal 1(2) mewn perthynas â meysydd datganoledig. At hynny, mae'r cynhyrchion a restrir yn yr Atodlen i'r Bil yn gulach o ran eu cwmpas na'r rhai sydd wedi'u cynnwys yn yr eithriadau i adrannau C6 ac C7 o Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. O ganlyniad, byddai darpariaethau cymal 1(1)(a), (1)(b) a (2) y Bil yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau at ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, yn rhannol o leiaf.

Barn Llywodraeth y DU ar yr angen i gael cydsyniad

30. Mae Llywodraeth y DU (fel y datgenir yn y Nodiadau Esboniadol i'r Bil) yn pennu bod angen cydsyniad deddfwriaethol y Senedd ar gyfer y Bil, drwy gynnig cydsyniad deddfwriaethol, ac mae'n cadarnhau yn ei barn hithau y bydd proses cynnig cydsyniad deddfwriaethol yn cael ei rhoi ar waith o ran cymalau 1-4 (yn rhannol) a chymalau 7-11 (yn rhannol).
31. Yn ei dadansoddiad datganoli, bu i Lywodraeth y DU ddatgan ymhellach y bydd mwyafrif helaeth y pwerau y mae'n rhag-weld y bydd yn eu harfer o dan y Bil yn ymwneud â materion a gedwir yn ôl yn unig o fewn Deddf Llywodraeth Cymru (2006).
32. Serch hynny, mae hefyd yn cydnabod y gall fod amgylchiadau lle y gallai arfer y pwerau yng nghymal 1(1)(a), 1(1)(b) ac 1(2) o bosibl gyffwrdd â meysydd y tu hwnt i'r materion a gedwir yn ôl eang hyn.

Rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn i Gymru yn y Bil Rheoleiddio Cynnyrch a Mesureg

33. Gellir ystyried datblygiad cyfundrefn diogelwch cynnyrch ledled y DU fel rhan allweddol o uchelgais ehangach i sefydlu a chynnal marchnad fewnol effeithiol yn y DU. Yn ogystal, bydd iddi fanteision ychwanegol yn nhermau iechyd a diogelwch cynhyrchion, yn enwedig o ran diogelwch tân. Mae'r Bil hwn yn darparu'r pwerau angenrheidiol i Lywodraeth y DU yn unol â'r nod ehangach hwn. Yn yr ystyr hon, mae'n synhwyrol ac yn ymarferol cefnogi ymdrechion Llywodraeth y DU i gyflawni'r nod hwn sydd o fudd amlwg i bob rhan o'r DU, gan gynnwys Cymru.
34. Fodd bynnag, mae angen ymgysylltu pellach â Llywodraeth y DU ar ehangder y pwerau gwneud rheoliadau yn 1(1)(a), 1(1)(b) ac 1(2). Ein dadansoddiad cychwynnol yw y gallai'r pwerau hyn gael eu defnyddio mewn ffordd a fyddai'n tresmasu'n sylweddol ar gymhwysedd datganoledig mewn cysylltiad â maes ehangach datblygu economaidd, ond hefyd maes diogelu'r amgylchedd, a meysydd eraill.

Goblygiadau ariannol

35. Mae'r [Asesiad Effaith](#) a ddarperir ochr yn ochr â'r Bil yn darparu dadansoddiad ansoddol ar gyfer y mesurau a geisir y byddai'r Bil yn eu darparu. Mae'n darparu manylion y diffygion yn y farchnad y byddai'r pwerau deddfu yn helpu i'w lleihau, ac yn darparu enghreifftiau o sut y gallai'r pwerau gael eu defnyddio. Byddai'r defnydd o'r pwerau galluogi yn ddarostyngedig i is-ddeddfwriaeth ac asesiadau effaith a fyddai'n meintoli'r effeithiau. Felly, ni chafodd unrhyw oblygiadau ariannol eu nodi hyd yma; fodd bynnag, bydd cyngor pellach yn cael ei gyflwyno os bydd y sefyllfa hon yn newid.

Casgliad

36. Rydym yn gefnogol o'r Bil hwn o ran ei rôl yn hwyluso gweithrediad esmwyth marchnad fewnol y DU. Fodd bynnag, mae angen o ymgysylltu ymhellach â Llywodraeth y DU ar y pwerau galluogi yng nghymalau 1(1)(a), 1(1)(b) ac 1(2), a rôl Gweinidogion Cymru a'r Senedd yn y maes hwn. Byddaf yn darparu diweddariadau pellach i'r Senedd ynghylch safbwynt Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Bil hwn ar ôl ymgysylltu pellach.

Rebecca Evans AS

**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio
20 Medi 2024**